

100  
1920~2020



Prifysgol  
Abertawe  
Swansea  
University

**ADOLYGIAD  
GWEITHREDOL  
AC ARIANNOL  
2016–2017**



Prifysgol Abertawe, Parc Singleton,  
Abertawe, SA2 8PP, UK

Ffôn: +44 (0)1792 205678

[www.abertawe.ac.uk](http://www.abertawe.ac.uk)

## Cynnwys

- 02 Neges gan yr Is-ganghellor
- 03 Y Brifysgol a'i Gwaith
- 04 Y Sefydliad
- 05 Gwaith y Brifysgol
- 06 Datganiad Buddion Cyhoeddus
- 08 Rheolaeth Ariannol a Rheoli Risg
- 10 Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- 18 Adroddiad Ariannol y Sefydliad
- 22 Llywodraethu Corfforaethol
- 24 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor
- 26 Adroddiad yr Archwilwyr i Gyngor Prifysgol Abertawe
- 28 Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu
- 34 Datganiadau Ariannol

## NEGES GAN YR IS-GANGHELLOR

Mae cryn falchder ledled y Brifysgol, ymhlith y staff a'r myfyrwyr, ynghylch cyflymder datblygiadau, llwyddiannau a chyflawniadau, a thwf cynyddol amlwg ein henw da. Yn benodol, roedd 2016/17 yn dystiolaeth ein bod wedi newid tirwedd addysg uwch yng Nghymru drwy ddal i fyny â Chaerdydd. Ni oedd y brifysgol orau yng Nghymru, ac enillom wobwr Prifysgol y Flwyddyn Cymru 2017 yn The Times/Sunday Times Good University Guide 2017. Yn dilyn ein cynnydd pellach yng nghanllaw 2018 i safle 35 yn y Deyrnas Unedig, dywedodd The Sunday Times, "Prin y galli Prifysgol Abertawe fod yn fwy llwyddiannus."

Mae'r gydnabyddiaeth allanol helaeth o gyflawniadau'r Brifysgol yn hynod bwysig i fyfyrwyr. Mae darpariaeth addysg uwch yn y Deyrnas Unedig yn fwyfwy gwahaniaethol, ac mae gwerth gradd yn gynyddol ddibynnol ar enw da'r Brifysgol a'i dyfarnodd.

Mae Prifysgol Abertawe'n canolbwyntio ar gystadlu'n llwyddiannus â'r prifysgolion gorau, nid drwy wneud yr un pethau â nhw, ond drwy gydnabod ein bod yn wahanol. Rydym wedi dangos ein bod yn Brifysgol chwim, effeithiol a hyderus sy'n falch o'n cryfderau nodweddiadol ac ein bod yn benderfynol o osod ein hagendâu ein hun.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ffynnu drwy osod targedau uchelgeisiol i'w hun ar gyfer ansawdd a graddfa ein holl weithgareddau. Diben anelu am dargedau yw sicrhau ein bod yn edrych ymlaen o hyd, y tu hwnt i unrhyw gythrwfl o ran polisi neu her yn ein profiad presennol, er mwyn parhau'n ffyddlon i'n dyheadau. Mewn marchnad gystadleuol, rydym wedi llwyddo i gynyddu niferoedd myfyrwyr yn sylweddol. Rydym yn parhau i fuddsoddi hefyd yn ystadau Campws y Bae a Champws Parc Singleton i ddarparu llety a chyfleusterau addysgu o ansawdd uchel i gynnal y twf yn ein niferoedd myfyrwyr.

Ochr yn ochr â phrifysgolion elit traddodiadol, rydym yn rhannu pwyslais ar ymchwil o'r ansawdd uchaf, ond rydym hefyd yn blaenoriaethu cydbwysedd rhwng ymchwil ac addysgu ardderchog. Rydym yn gofalu am ein myfyrwyr, gan ymdrechu i'w paratoi ar gyfer gyrfa dda a bywyd da.

Cawn ein hysgogi gan weithredu, ac mae llawer o'n hymchwil yn canolbwyntio ar sicrhau effaith i unigolion, i ddiwydiant ac i'r gymuned. Eto, rydym yn gryfach am ein bod yn gwneud pethau'n wahanol. Sefydlwyd ymagweddau amlddisgyblaethol at broblemau ymchwil – sy'n fwyfwy cyffredin bellach – ym Mhrifysgol Abertawe adeg ei sefydlu gan ddiwydiant ym 1920. Am ein bod yn canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau, rydym hefyd yn unigryw ymhlith prifysgolion y Deyrnas Unedig o ran gweithio ar draws yr ystod o lefelau parodrwydd technoleg i bontio'r bwlch rhwng cyflawniadau ymchwil ac uwchraddio a masnacheiddio ar gyfer y farchnad. Mae ein gwaith yn niwydiant dur y Deyrnas Unedig yn un enghraifft o hyn, lle'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â Tata Steel a chwmnïau eraill ar ddatblygu deunyddiau adeiladau dur, sy'n golygu y gall adeiladau gynhyrchu, storio a rhyddhau eu pŵer eu hunain. Gallai'r dechnoleg hon gyfrannu'n sylweddol at gynnal cynhyrchu dur yn y Deyrnas Unedig, gan wella hydwythedd ynni'r wlad, a lleihau tlodi tanwydd.

Mae Prifysgol Abertawe'n cymryd ei chenhadaeth i wneud gwahaniaeth ac i sicrhau effaith o ddifrif mewn sawl ffordd, er enghraifft, drwy gynnal Gŵyl Wyddoniaeth Prydain a'n cyfraniad at Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae Gŵyl Wyddoniaeth Prydain yn un o wyliau gwyddoniaeth mwyaf Ewrop, ac ym mis Medi 2016 croesawom fwy na 350 o wyddonwyr blaenllaw i arddangos arloesiadau a darganfyddiadau. Daeth miloedd o ymwelwyr i sgysiau, gweithdai a pherfformiadau, a gwnaethom ymdrech arbennig i gynnwys teuluoedd a phobl ifanc er mwyn ysgogi diddordeb mewn gwyddoniaeth ar draws cenedlaeth newydd. Cafwyd sylw yn y wasg ar bob cyfandir, gan helpu i gynyddu proffil Prifysgol Abertawe yn fydd-eang. Mwynhaodd y teuluoedd a'r plant eu profiad o ymwneud â gwyddoniaeth drwy arbrofion ymarferol a chwrrd a'n gwyddonwyr yn bersonol gymaint mae'r Brifysgol nawr yn cynnal ei gŵyl flynyddol ei hun yn y gymuned, sef Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe.

Eleni bu'r Brifysgol yn rhan bwysig iawn o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, ac roeddem yn falch o groesawu'r Prif Weinidog ac arweinwyr o ddiwydiant i Gampws y Bae ar achlysur cyhoeddi'r fargen gwerth £1.3 biliwn. Bydd y buddsoddiad yn annog, yn gwreiddio ac yn masnacheiddio arloesi yn y gwyddorau bywyd, dur a metelau, gweithgynhyrchu, adeiladu tai ynni effeithlon, a diwydiant 4.0. Bydd gallu technegol, ymchwil a sgiliau addysgu'r Brifysgol yn hollbwysig wrth sicrhau llwyddiant i'r rhanbarth.

Mae'r Brifysgol yn mynd o nerth i nerth o hyd, diolch i gydweithio parhaus ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn falch bod llwyddiant y Brifysgol yn cyfrannu at gyfoethogi ein cymuned a'r economi ranbarthol.



Yr Athro Richard B. Davies  
Is-ganghellor Prifysgol Abertawe

## Y BRIFYSGOL A'I GWAITH

Mae Prifysgol Abertawe'n sefydliad uchelgeisiol dwys-ei-ymchwil â mwy nag 20,000 o fyfyrwyr. Gweledigaeth y Brifysgol yw, 'Erbyn 2017, bydd Prifysgol Abertawe yn brifysgol ddwys-ei-hymchwil ymhlith y 30 o brifysgolion gorau yn y Deyrnas Unedig.' Cyflawnwyd hyn yn ymarfer diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, lle cyrhaeddodd Abertawe safle 26 yn y Deyrnas Unedig.

Mae Prifysgol Abertawe wedi datblygu'i gallu ymchwil yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gwnaed buddsoddiad drwy'r broses cynllunio busnes ac arallgyfeirio adnoddau tuag at y meysydd academiaidd mwyaf llwyddiannus. Bu ffocws cryf ar ddatblygu gweithgarwch ymchwil rhyngddisgyblaethol.

### CENHADAETH

Gan aros yn ffyddlon i weledigaeth ei sylfaenwyr diwydiannol ym 1920, bydd Prifysgol Abertawe yn:

- a) Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, a gyflawnir ar y cyd ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- b) Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu dwys-ei-ymchwil o'r ansawdd uchaf a ysgogir gan arfer sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang wedi'u haddysgu i gyflawni'n rhagorol, yn bersonol ac yn broffesiynol.
- c) Defnyddio ei chryfder ymchwil, ei chydweithio â diwydiant a'i dylanwad byd-eang i ysgogi twf economaidd; i fagu ffyniant; i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru; ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion.

### STRATEGAETH

Strategaeth Prifysgol Abertawe yw manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein perfformiad llawer gwell o ran ein hymchwil, ansawdd ein haddysgu a phrofiad ein myfyrwyr, a'n rôl ddatblygol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Nid yw Cenhadaeth y Brifysgol wedi newid. Mae'r modd y caiff hyn ei gyflawni a'r glasbrint unigryw ar gyfer ein dyfodol, fodd bynnag, wedi'u diffinio'n fanylach ar gyfer cam diweddaraf ein datblygiad strategol.

Mae'r Brifysgol yn cynllunio twf uchelgeisiol mewn meysydd academiaidd allweddol a ddatblygir mewn partneriaeth â diwydiant a'r llywodraeth a fydd yn ysgogi datblygiad Economi Wybodaeth yn ne-orllewin Cymru. Nodwedd alluogi allweddol y cynlluniau hyn yw adeiladu Campws y Bae a'i ddatblygiad parhaus, sy'n cydgymysgu Ymchwil a Datblygu ag ymchwil academiaidd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r cynlluniau ariannol, y rhagolygon a'r canlyniadau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bwriad y gwarged a gyllidebir yw ariannu rhaglen gyfalaf y Brifysgol, a gwella'r ystâd yn benodol.

## Y SEFYDLIAD

Y Cyngor, sef corff llywodraethu'r Brifysgol, sy'n rheoli'r Brifysgol a'i materion, ei dibenion a'i swyddogaethau. Aelodau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017 oedd:

Rôl	Aelod	Diwedd Tymor
Canghellor	Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan (tan 17 Mai 2017)	Bu farw ym mis Mai 2017
Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor	Syr Roger Jones	10 Medi 2019
Dirprwy Ganghellor	Syr Roderick Evans	Mawrth 2021
Trysorydd	Mr Friedrich (Fritz) Summer	31 Ionawr 2021
Is-ganghellor	Yr Athro Richard B. Davies	Tan iddo ymddeol
Dirprwy Is-gangellorion (uchafswm o 3)	Yr Athro Iwan Davies Yr Athro Hilary Lappin-Scott Yr Athro Steve Wilks	30 Tachwedd 2019 5 Rhagfyr 2018 31 Rhagfyr 2018
6 Aelod a benodir gan ac o Lys Prifysgol Abertawe  (* Daw eu tymor i ben yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Llys ar gyfer y sesiwn dan sylw)	Mr Gordon Anderson Dr Kerry Beynon Mrs Jill Burgess Yr Athro Emeritws Y Fonesig June Clark Ms Debbie Green Ms Elin Rhys	Ionawr 2021 (2019/20*) Ionawr 2020 (2018/19*) Ionawr 2018 (2016/17*) Ionawr 2018 (2016/17*) Ionawr 2019 (2017/18*) Ionawr 2020 (2018/19*)
4 aelod o'r staff academiaidd a benodir gan ac o'r Senedd,  (2 â statws Athro a 2 aelod staff nad ydynt yn athrawon)	Yr Athro David Blackaby (tan 30 Medi 2016) Mr Michael Draper Yr Athro Joy Merrell (o Hydref 2016) Yr Athro Jane Thomas Dr Tessa Watts	30 Medi 2016 15 Mawrth 2020 18 Hydref 2020 30 Tachwedd 2018 15 Mawrth 2020
6 aelod wedi'u cyfethol gan Gyngor Prifysgol Abertawe	Mr Huw Jones Mr John Mahoney Mrs Rosemary Morgan Dr Angus Muirhead Mr Bleddyn Phillips (o 30 Ebrill 2017) Ms Debra Evans-Williams Yr Arglwydd Michael Williams o Faglan (tan Mawrth 2017)	10 Medi 2017 25 Mawrth 2020 10 Medi 2019 20 Mawrth 2020 1 Mai 2021 25 Hydref 2019 Mawrth 2017
2 o weithwyr Prifysgol Abertawe a enwebwyd gan Undebau Llafur cydnabyddedig y Brifysgol	Dr Simon Hoffman Mrs Val Mills (o Mehefin 2017) Mr John Tregembo (tan Ebrill 2017)	10 Medi 2019 Mehefin 2021
Llywydd Undeb y Myfyrwyr	Mr Lloyd Harris Ms Chisomo Phiri (o 1 Gorffennaf 2017)	30 Mehefin 2017 30 Mehefin 2018
Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr	Ms Robyn Lock Mr Gwyn Aled (o 1 Gorffennaf 2017)	30 Mehefin 2017 30 Mehefin 2018

Yr Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol am weithrediadau'r Brifysgol, ac mae'n cynnwys:

**Yr Is-ganghellor** – Yr Athro Richard B. Davies

**Y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol** (Gweithgareddau Gweinyddol a Chymorth) – Mr Raymond Ciborowski

**Yr Uwch Ddirprwy Is-ganghellor** (Ystadau a Rhyngwladoli a'r Gyfraith) – Yr Athro Iwan Davies

**Yr Uwch Ddirprwy Is-ganghellor** (Ymchwil ac Arloesi a'r Ysgol Reolaeth, y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a Meddygaeth)  
– Yr Athro Hilary Lappin-Scott

**Y Dirprwy Is-ganghellor** (Profiad y Myfyrwyr a Gwyddoniaeth a Pheirianneg) – Yr Athro Steve Wilks

**Y Dirprwy Is-ganghellor** (Academiaidd a'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) – Yr Athro Martin Stringer

**Y Cyfarwyddwr Cyllid** – Mr Rob Brelsford-Smith

Y Bwrdd Rheoli yw uwch bwyllgor reoli a gweithredol y Brifysgol, sy'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Penaeithiaid Coleg, y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a dau gynrychiolydd y Cyfarwyddwyr gweithrediadau gweinyddol allweddol. Mae'r corff hwn yn fforwm ar gyfer cydweithio i roi cyfeiriad i'r sefydliad cyfan ac ar gyfer cynghori'r Is-ganghellor ac uwch swyddogion eraill y Brifysgol ar faterion yn ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.

## GWAITH Y BRIFYSGOL

Mae wedi bod yn flwyddyn ardderchog arall i Brifysgol Abertawe, gan adeiladu sylfeini cryf ar gyfer llwyddiant a thwf parhaus yn y dyfodol.

Fel cydnabyddiaeth am y llwyddiant hwn, enillodd y Brifysgol wobwr 'Prifysgol y Flwyddyn Cymru' The Times and The Sunday Times Good University Guide 2017, a chyrrhaeddodd y 350 uchaf yn Safleoedd Prifysgolion y Byd Times Higher Education 2016-17 – ein safle uchaf erioed.

Ym Mehefin 2017, enillodd y Brifysgol safon Arian ar gyfer Rhagoriaeth Addysgu yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cyntaf llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd panel annibynnol o'r farn bod Prifysgol Abertawe'n darparu addysgu, dysgu a chanlyniadau o ansawdd uchel i'w myfyrwyr, sy'n rhagori ar ofynion ansawdd cenedlaethol llym ar gyfer addysg uwch y Deyrnas Unedig yn gyson. Yn benodol, canmolwyd y Brifysgol ar ei chyfran uchel o fyfyrwyr o bob math o gefndiroedd sy'n symud ymlaen i gyflogaeth tra medrus neu astudiaethau pellach.

Mae canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014 yn cadarnhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol, parhaus a gwerthfawr, yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, ac yn rhyngwladol hefyd. Mae'r canlyniadau, sy'n ddilys tan yr asesiad nesaf yn 2021, yn dangos mai Prifysgol Abertawe esgynnodd fwyaf ymhlith sefydliadau dwys eu hymchwil, gan godi o safle 52 yn y Deyrnas Unedig yn 2008 i safle 26 yn 2014. Mae ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio ymhlith yr ugain gorau yn y Deyrnas Unedig mewn saith pwnc: Meddygaeth (2), Saesneg (7), Biowyddoniaeth (8), Peirianeg (12), Gwaith Cymdeithasol (14), Gwyddor Chwaraeon (15) a Chyfrifiadureg (18). Yn gyffredinol mae'r Brifysgol wedi dyblu'r nifer o ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac mae 90% o ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio yn rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gyrraedd lefelau uchel o ran bodlonrwydd myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr diweddaraf (2017). Mae 88% o'r myfyrwyr yn fodlon ar eu profiad cyffredinol, gan roi'r Brifysgol yn gydradd safle 17 yn y Deyrnas Unedig. Mae 15 o 39 maes pwnc y Brifysgol yn y deg uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran bodlonrwydd cyffredinol, gydag wyth maes yn y pump uchaf.<sup>1</sup>

Yng ngwobrau diweddaraf Dewis Myfyrwyr WhatUni 2017 (wedi'u pleidleisio gan fyfyrwyr), cydnabuwyd y Brifysgol unwaith eto fel un o'r prifysgolion gorau yn y Deyrnas Unedig, gan gyrraedd y pedwerydd safle. Mae'r Brifysgol wedi cyrraedd y pump uchaf ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys y brig yn 2014. Eleni, enillodd y Brifysgol hefyd y wobwr gyntaf am fodlonrwydd myfyrwyr ôl-raddedig yn yr arolwg.

Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i'w graddedigion symud ymlaen i gyflogaeth graddedigion neu astudiaethau pellach. Yn arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) 2017, enillodd y Brifysgol ei sgôr uchaf erioed o 82.6%, gan ei rhoi yn y pymthegfed safle yn y Deyrnas Unedig. Mae mydryddiaeth gwerth ychwanegol The Guardian University Guide 2018 hefyd yn dangos gallu'r Brifysgol i gefnogi a datblygu'r holl fyfyrwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Ar sail y fydryddiaeth hon, esgynnodd y Brifysgol un safle ar ddeg i safle 26 yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ehangu a diweddarau'r ddau gampws i ddarparu ymchwil, addysgu a chyfleusterau o safon fyd-eang i'r myfyrwyr a'r staff. Dechreuodd Cam 2 Cynllun Datblygu'r Campws ym mis Ionawr 2016 yng Nghampws y Bae (gwerth £450 miliwn), ac mae Ffowndri Gyfrifiadol newydd gwerth £31 miliwn yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd – canolfan o safon fyd-eang ar gyfer ymchwil cyfrifiadol. Ar Gampws Parc Singleton, bydd Adeilad Grove ar ei newydd wedd yn gartref i'r Adran Gemeg ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ym mis Medi 2017, yn ogystal â'r Academi Iechyd a Lles newydd a agorodd ym mis Mawrth 2017. Mae datblygiadau eraill arfaethedig neu sydd ar y gweill yn cynnwys preswylfeydd myfyrwyr ychwanegol, sefydliad ymchwil lled-annibynnol IMPACT (Technolegau Deunyddiau, Prosesu a Rhifiadol Arloesol) fel rhan o'r Coleg Peirianeg ar Gampws y Bae, cynnydd Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH), cydleoeli Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Gweithgareddau Myfyrwyr newydd ar Gampws Parc Singleton.

Mae'r cyflawniadau yn ystod y flwyddyn yn cadarnhau safle Abertawe fel prifysgol uchelgeisiol ar gynydd.

<sup>1</sup> Mae'r safleoedd ar sail y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn The Sunday Times Good University Guide ac sydd â chanlyniad dilys Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr (NSS) 2017 neu Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) 2017.

## DATGANIAD BUDDION CYHOEDDUS

### Daeth y Brifysgol yn elusen gofrestrredig ym mis Medi 2010, a'i rhif elusen yw 1138342.

Diffinnir y fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo yn y Siarter a'r Statudau. Amcanion y Brifysgol yw hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae gweledigaeth a nodau ac amcanion strategol y Brifysgol wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Brifysgol.

Wrth bennu ac adolygu amcanion y Brifysgol a'i gweithgareddau, rhoddodd Cyngor y Brifysgol sylw priodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fuddion cyhoeddus, ac yn arbennig ei arweiniad ar fuddion cyhoeddus atodol ar hyrwyddo addysg.

### Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, a gyflawnir ar y cyd ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Cyflawnodd y Brifysgol y naid uchaf ymhlith sefydliadau dwys-eu-ymchwil y Deyrnas Unedig yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 – o safle 52 yn 2008 i safle 26. Graddiwyd Prifysgol Abertawe ymhlith yr ugain gorau yn y Deyrnas Unedig mewn saith pwnc, ac yn gyffredinol dyblodd y Brifysgol ei nifer o ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae 90% o ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio'n rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae'r canlyniadau hyn yn ddilys tan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf yn 2021.

Mae'r gyfran uchel o ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn rhagorol yn rhyngwladol mewn Meddygaeth, Peirianeg, Cyfrifiadureg a Gwyddor Amgylcheddol yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad parhaus portffolio ymchwil y Brifysgol. Y meysydd hyn, gan weithio'n rhyngddisgyblaethol gydag ymchwilwyr yn y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, sydd wedi creu'r cryfder, yn ffisegol ac o ran enw da, sy'n cefnogi cyfraniad Prifysgol Abertawe i'r sylfaen ymchwil yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Dros y deng mlynedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn parhau i greu amgylchedd ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang; gan fuddsoddi yng Nghampws Parc Singleton drwy'r Sefydliad Gwyddor Bywyd, Sefydliad Gwyddor Bywyd 2, y Ganolfan Ymchwil Dyframaeth Cynaliadwy a Gwyddor Data yn Abertawe. Ym mis Medi 2015, agorodd y Brifysgol ddrysau Campws newydd y Bae – amgylchedd arloesi eang sy'n manteisio i'r eithaf ar dwf ymchwil ar y cyd â diwydiant mewn clystyrau technoleg uchel lle mae Prifysgol Abertawe wedi sefydlu cryfderau.

Fwyaf diweddar, cyrhaeddodd y Brifysgol ei safle uchaf erioed yn Safleoedd Prifysgolion y Byd Times Higher Education 2016-17, ymhlith y 350 o brifysgolion gorau yn y byd. Mae hyn yn cydnabod ei pherfformiad ar draws cynhyrchiant ymchwil, effaith ac enw da, yn ogystal â pherfformiad addysgu a rhyngwladoli.

### Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu dwys-ei-ymchwil o'r ansawdd uchaf a ysgogir gan arfer sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang wedi'u haddysgu ac yn barod i gyflawni'r rhagorol, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mae'r Brifysgol yn addysgu mwy nag 20,000 o fyfyrwyr ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Mae'r addysg hon yn datblygu myfyrwyr yn academiaidd ac yn cynyddu eu rhinweddau arweinyddiaeth a'u sgiliau rhyngbersonol, ac yn eu paratoi i chwarae rôl lawn ac effeithiol yn y gymdeithas.

Mae dau o academaiau'r Brifysgol, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), yn cynorthwyo â chyflawni'r nod hwn. Mae SALT yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer gwella asesu ac adborth, addysg a arweinir gan ymchwil, cyflwyno cyrsiau ar-lein ac ymchwil addysgeg. Mae SEA yn bartneriaeth rhwng y Brifysgol, ei myfyrwyr, cyflogwyr lleol, entrepreneuriaid, y cynghorau sgiliau sector a'r llywodraeth i gefnogi datblygiad sgiliau cyflogadwyedd, arloesi a mentergar y myfyrwyr er mwyn creu 'graddedigion byd-eang'.

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) newydd y Deyrnas Unedig, enillodd y Brifysgol safon Arian, gan ddangos bod y Brifysgol yn darparu addysgu, dysgu a chanlyniadau o ansawdd uchel i'w myfyrwyr, ac yn rhagori ar ofynion ansawdd cenedlaethol llym ar gyfer addysg uwch y Deyrnas Unedig yn gyson. Yn benodol, rhagorodd y Brifysgol o ran cefnogi myfyrwyr o bob cefndir i gyflawni canlyniadau ardderchog. Dangosodd mydryddiaeth TEF fod Prifysgol Abertawe'n cefnogi ei hystod amrywiol o fyfyrwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol h.y. cyflogaeth lefel raddedig neu astudiaethau pellach, ar lefelau sy'n rhagori ar ddisgwyliadau. Dengys hyn allu'r Brifysgol i ychwanegu gwerth a meithrin myfyrwyr i gyflawni'u nodau personol eu hunain.

Yn 2017, roedd y Brifysgol yn safle 17 yn The Guardian University Guide 2018 am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr (ar sail Arolwg Cenedlaethol o Fodlonrwydd Myfyrwyr 2016) ac roedd yn y 30 uchaf yn y tri phrif tabl cynghrair ar gyfer cefnogi graddedigion i ennill swydd lefel raddedig.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod rhaid i ehangu mynediad at addysg uwch gyflwyno'r sgiliau lefel uwch sy'n gwella cyfleoedd bywyd y buddiolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn barhaol. Mae gan y Brifysgol record wych o gyflawni yn y maes hwn, ac mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn canolbwyntio ar ehangu mynediad. Nod SAILS yw cynyddu cyfleoedd



i bobl o gefndiroedd amrywiol (megis y rhai o ardaloedd difreintiedig neu gyfranogiad isel, plant sydd wedi bod mewn gofal, myfyrwyr anabl) elwa o addysg uwch, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth academaidd a bugeiliol y mae eu hangen arnynt er mwyn llwyddo yn eu hastudiaethau.

Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn gweithredu rhaglen allgymorth i gynyddu dyheadau addysgol ac i ddenu ymgeiswyr rhagorol efallai na fyddent wedi ystyried gwneud cais o'r Brifysgol fel arall. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ag ysgolion, ymweliadau gan ysgolion â'r Brifysgol, diwrnodau agored a symposia derbyn ar gyfer athrawon, yn ogystal ag arweiniad a gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr ar wefan y Brifysgol.

### **Defnyddio ei chryfder ymchwil, ei chydweithio â diwydiant a'i dylanwad byd-eang i ysgogi twf economaidd, i fagu ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru, ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion.**

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu ymagwedd radical a thrawsnewidiol er mwyn lleoli ei hun yn brifysgol 'angor' effeithiol yn y rhanbarth drwy wireddu ei strategaeth hirdymor ar gyfer ymchwil a chydweithio â diwydiant. Mae twf y Brifysgol yn ystod y degawd diwethaf yn allweddol o ran ei gallu i effeithio ar dwf economaidd yng Nghymru. Mae'r mäs critigol a sefydlwyd yn y sectorau blaenoriaeth, sef Peirianeg a Deunyddiau Uwch, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r Economi Ddigidol, a'r Gwyddorau Bywyd ac Iechyd yn galluogi'r Brifysgol i ysgogi gwelliannau cynhyrchiant o ddifrif, gan hybu cystadleugarwch economaidd y rhanbarth.

Mae datblygu Campws y Bae eisoes wedi cael effaith economaidd sylweddol ar y rhanbarth, gyda thros 7,500 o bobl wedi gweithio ar y safle (78% ohonynt yn byw yng Nghymru), dyfarnu 183 o gontractau i gwmnïau o Gymru (gwerth mwy na £66 miliwn) a rhoi cyfle i 165 o bobl leol ddechrau gyrfa newydd a dysgu sgiliau newydd. Dros gyfnod o ddeng mlynedd disgwylir i Gampws y Bae gyfrannu £3 biliwn yn y rhanbarth a chreu 10,000 o swyddi.

Gan adeiladu ar ei chryfderau ymchwil a'i phartneriaethau â diwydiant, mae'r Brifysgol wedi llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau mawr a gefnogwyd gan arian Ewropeaidd, sydd wedi gwireddu buddion sylweddol i Gymru a'r rhanbarth drwy greu swyddi, gwella cynhyrchiant a darparu cymorth i fusnesau. Mae'n werth nodi'n benodol y Sefydliad Gwyddor Bywyd, sef adain ymchwil y Coleg Meddygaeth, sydd wedi gwireddu buddion pendant i ofal iechyd a'r economi ranbarthol, yn ogystal ag adeiladu ar ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang y Coleg Peirianeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn cefnogi busnesau lleol drwy gydweithio'n uniongyrchol â chyflogwyr lleol i nodi a diwallu eu hanghenion sgiliau a'u helpu i ddatblygu sgiliau sy'n hanfodol i gynyddu ffyniant yng Nghymru.

Ym mis Medi 2016, cynhaliodd y Brifysgol wyl Wyddoniaeth Prydain a Phenwythnos Teulu'r Wyl, gan ddenu dros 25,000 o ymwelwyr a dod â gwyddonwyr blaenllaw at ei gilydd i ddangos y datblygiadau gwyddonol diweddaraf a rhoi cyfle i'r cyhoedd ddod i gyfranogi a chael eu hysbrydoli gan wyddoniaeth. Mae llwyddiant y digwyddiad hwn wedi arwain at greu Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe, a chaiff ei chynnal ym mis Medi 2017. Caiff yr wyl am ddim hon ei chynnal gan bartner gŵyl y Brifysgol, Amgueddfa Genedlaethol y Glanau, a bydd yn denu ymwelwyr o bob oedran, ac mae wedi'i chynllunio i ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr.

Mae'r Brifysgol yn dal casgliadau ymchwil hanesyddol o bwys rhyngwladol. Mae'r casgliadau unigryw ac amrywiol hyn, gan gynnwys Archifau Richard Burton a llyfr nodiadau a llawysgrifau Dylan Thomas, yn cefnogi ymchwil ac addysgu sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn y Brifysgol ac yn amrywio o ran eu cwmpas, o lyfrau ac archifau prin i gofnodion hanes llafar a phamffledi. Mae Archifau'r Brifysgol yn cadw'r casgliadau ac yn eu gwneud yn hygyrch i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Casgliadau eu hunain yn rhoi golwg ddiddorol iawn ar hanes diwydiannol, diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac addysgol de Cymru, ac maent yn agored i'r cyhoedd.

Ym mis Mawrth 2016, lansiodd y Brifysgol Oriol Science, yr unig arddangosfa a reolir gan brifysgol yn y Deyrnas Unedig sy'n dangos ei hymchwil i'r gymuned ac sydd wedi'i chynllunio i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM o lefel TGAU hyd addysg uwch. Ers ei hagor, mae mwy na 12,000 o ymwelwyr o'r cyhoedd a 750 o ddisgyblion ysgol wedi ymweld, a dywedodd mwy na 90% eu bod wedi dysgu mwy am wyddoniaeth.

Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin a'r Ganolfan Eifftaidd ar Gampws Parc Singleton a'r Neuadd Fawr ar Gampws y Bae yn cynnal ac yn cefnogi digwyddiadau, arddangosfeydd, cynadledau, seremonïau graddio a digwyddiadau cymunedol ar gyfer y gymuned leol, y cyhoedd a phlant ysgol lleol. Mae gan y Brifysgol hefyd gyfleusterau llyfrgell a chwaraeon cynhwysfawr, sydd ar gael i'r gymuned leol.

Mae Darganfod, mudiad ar weinir gan fyfyrwyr, yn cydlynu cannoedd o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli mewn oddeutu ugain o brosiectau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan fyfyrwyr. Mae'n mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a thlodi drwy weithio gyda phlant ac oedolion sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu, ac yn rhoi cyfeillgarwch a chymorth ymarferol i bobl hyn.

Mae buddiolwyr y Brifysgol yn cynnwys myfyrwyr, staff academaidd gwadd, plant ysgol, cyn-fyfyrwyr y Brifysgol a'r cyhoedd – y maent oll yn cael cyfle i ddod i ddigwyddiadau addysgol (megis darlithoedd cyhoeddus, arddangosfeydd a gweithgareddau eraill) a defnyddio'r cyfleusterau academaidd.

## RHEOLI ARIANNOL A RHEOLI RISG

### LLIF ARIAN

Yn unol â Pholisi Rheoli Trysorfa'r Brifysgol, yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r elw gorau wrth gadw risg i isafswm. Rheolir adneuron tymor byr y Brifysgol gan gwmni Royal London Asset Management ar hyn o bryd, ac mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi yn monitro perfformiad y cwmni yn ôl meincnodau a bennwyd ymlaen llaw.

### POLISI BENTHYCA

Mae'r Brifysgol wedi sicrhau benthygiad pellach o £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop, ond nid ydyw wedi'i dalu eto.

Ochr yn ochr â'i pholisiau ynghylch dod o hyd i ariannu, mae'r Brifysgol hefyd yn ofalus wrth reoli'r risgiau a lleihau anhyblygrwydd cynhenid trefniadau hirdymor. Wrth fenthyca, dilyna'r Brifysgol yr egwyddorion canlynol:

- Osgoi bod yn agored i gynnydd mewn cyfraddau llog efallai na fyddai'n fforddiadwy
- Cadw hyblygrwydd i ailstrwythuro benthygiadau a risg o ran cyfraddau llog yn annibynnol i'w gilydd
- Gwneud y gorau o'r fantais a gawn gan gyfamod y Brifysgol
- Cadw maint y ddyled i lefel y gellir ei gwasanaethu'n ddiogel drwy weithredu llif arian sy'n gyson â chyfmodau bancio'r Brifysgol
- Strwythuro'r proffil ad-daliadau cyffredinol i gyfyngu'r pwysau ar y llif arian.

Mae'n ofynnol bod Prifysgol Abertawe'n cydymffurfio â chyfmodau ariannol a gyhoeddwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB) yn unol â'r Cytundeb Ariannol o ran gwasanaethu dyledion, geriad a hylifedd. Mae rheolwyr y Brifysgol yn monitro cydymffurfio â chyfmodau'n rheolaidd wrth ystyried buddsoddi perthnasol yn seilwaith y Brifysgol.

### RHEOLI ARIAN A HYLIFEDD

Derbynnir canran uchel o incwm y Brifysgol ar amserlen sefydlog a hysbysir ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu'r Brifysgol i gynnal gwarged ac i osgoi dibynnu ar fenthygiadau tymor byr. Fel arfer caiff gwarged arian parod ei drosglwyddo i adneuron y farchnad arian. Hyd yma, caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu rheoli mewn cyfrif ar y cyd ar ran y Brifysgol, ac mae eu proffil aeddfedrwydd yn cydbwysu risg ac adenillion, gan adlewyrchu cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Brifysgol.

Yng ngoleuni ansicrwydd presennol yn y marchnadoedd, mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro ei hadneuron yn weithredol.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol gronfeydd ar gyfer darparu ysgoloriaethau, gwobrau a gweithgareddau gwaddoledig eraill. Mae'r cronfeydd hyn wedi'u buddsoddi mewn cymysgedd o ecwitiâu, stociau a bondiau cyfnod penodol, arian parod ac offerynnau eraill a ddylunnir i gynhyrchu incwm wrth ddiogelu gwerth sylfaenol y cyfalaf.

### CAETHWASIAETH MODERN

Mae caethwasiaeth modern yn drosedd ac yn gam yn erbyn hawliau dynol sylfaenol. Mae'n digwydd mewn sawl ffordd, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfod, llafur gorfodol a masnachu pobl, y maent oll yn amddifadu person o ryddid gan berson arall er mwyn manteisio arnynt er budd personol neu fasnachol.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag Adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Modern 2015, ac mae'n ffurfio ein datganiad masnachu pobl a chaethwasiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017.

Yn ystod y flwyddyn i fis Gorffennaf 2017, gweithredodd y Brifysgol yn gyfrifol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Modern 2015. Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i weithio tuag at sicrhau nad oes caethwasiaeth modern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'n busnes.

Yn sgil y rhwymedigaeth i adrodd ar fesurau i sicrhau bod pob elfen o'n busnes a'r gadwyn gyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth, byddwn yn adolygu ein polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd wrth adnabod a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth modern. Bydd Prifysgol Abertawe hefyd yn ystyried polisi newydd y llywodraeth ar gadwyni cyflenwi moesegol.

Fel rhan o'n menter i adnabod a lleihau risgiau, byddwn yn rhoi systemau ar waith i adnabod, asesu a monitro risgiau posib yn ein cadwyni cyflenwi.

Mae Prifysgol Abertawe yn aelod o Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Mae HEPCW yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'i gyfatebwyr, Consortia Pwrcasu Prifysgolion y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen contractio ar y cyd yn darparu porffolio cydweithrediadol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel, megis nwyddau swyddfa, nwyddau traul labordy, cyfarpar TGCh a rhai o wasanaethau Ystadau.

Mae llawer o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i Gôd Sylfaen y Fenter Masnach Moesegol (ETI), ac mae Consortia Pwrcasu Prifysgolion y Deyrnas Unedig yn gweithio i berswadio'r cyflenwyr sy'n weddill yn y categorïau hyn i ymuno â hwy. Mae Côt Sylfaen ETI yn seiliedig ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n gôd ymarfer sydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol, ac mae'n gofyn:

1. Bod dewis cyflogaeth yn rhydd;
2. Y caiff rhyddid i gysylltiadau a'r hawl i fargeinio casgliadol eu parchu;
3. Bod amodau gwaith yn ddiogel ac yn lân;
4. Na ddefnyddir llafur plant;
5. Y telir cyflogau byw
6. Nad yw'r oriau gwaith yn ormodol;
7. Nad oes unrhyw gamwahaniaethu;
8. Am ddarparu cyflogaeth reolaidd; ac
9. Na chaniateir unrhyw driniaeth lem neu annynol.

I sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth modern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi ac o fewn ein sefydliad, bwriadwn gynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth modern. Bydd staff Caffael yn cwblhau hyfforddiant ar-lein y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS), Ethical Procurement and Supply (neu ei gyfwerth).

### PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Diffiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) o risg yw, "elfen o ansicrwydd sy'n effeithio ar benderfyniadau gweithredol a chanlyniadau arfaethedig. Gall ffactorau risg fod yn gyfleoedd cadarnhaol neu'n fygythiadau negyddol." Yn y bôn, y ffactorau sy'n helpu neu'n atal cyflawni ein hamcanion. Drwy adnabod risgiau allweddol i gyflawni ein hamcanion, gallwn ystyried a chynllunio ein hymateb iddynt. Mae hyn yn ein helpu i leihau effaith pethau annisgwyl ac i ymateb yn fwy effeithiol i gyfleoedd posib.

Mae rheoli risg yn broses sy'n rhoi sicrwydd bod amcanion yn fwy tebygol o gael eu gwireddu, bod pethau niweidiol yn llai tebygol o ddigwydd a bod pethau buddiol yn fwy tebygol o gael eu cyflawni.

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae risgiau ar wahanol lefelau:

- Lefel gorfforaethol neu strategol
- Lefel Coleg / Ysgol
- Lefel Uned Gwasanaethau Proffesiynol (PSU)
- Lefel Prosiect

Caiff risgiau ar lefel gorfforaethol neu strategol eu rheoli gan Uwch Dîm Rheoli (SMT) y Brifysgol drwy Gofrestr Risg y Brifysgol. Er mai cyfrifoldeb yr uwch reolwyr yw'r risgiau, caiff y camau gweithredu lliniarol eu rhaeadru i lawr drwy'r Brifysgol. Yn ogystal, mae gan bob Coleg ac Uned Gwasanaethau Proffesiynol yn y Brifysgol eu Cofrestr Risg eu hunain i sicrhau bod risgiau i'w hamcanion yn hysbys ac y dilynir camau rheoli risg. Disgwylir i bob prosiect adnabod a lleihau risgiau yn barhaus hefyd.

Mae'r SMT yn adolygu Cofrestr Risg y Brifysgol bob chwarter. Disgwylir i Golegau a phob PSU adolygu eu Cofrestr Risg yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli ac i leihau unrhyw risgiau i'w hamcanion yn barhaus.

Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, monitrodd Cofrestr Risg y Brifysgol ugain risg, a rhoddwyd statws coch i un ohonynt. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017, roedd 19 risg strategol ar Gofrestr Risg y Brifysgol, ac roedd un ohonynt â statws coch h.y. yn achosi'r pryder mwyaf.

- Mae gweledigaeth y Brifysgol o fod yn sefydliad dwys-ei-ymchwil yn dibynnu ar gyflawni'r targedau incwm ymchwil

Yn ogystal â'r risgiau coch hyn, mae Cofrestr Risg y Brifysgol yn monitro risgiau corfforaethol a strategol eraill yn ofalus, gan gynnwys pwysigrwydd sicrhau cysylltiadau da â diwydiant; pwysigrwydd sicrhau profiad rhagorol i fyfyrwyr; recriwtio staff o ansawdd uchel; a thargedau ar gyfer recriwtio myfyrwyr, cartref a rhyngwladol, israddedig ac ôl-raddedig.

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) i gynorthwyo wrth fonitro gweithgarwch y Brifysgol o gymharu â'i hamcanion. Nodir deholiad o'r prif ddangosyddion isod. Lle bo'n bosib, adroddir ar ffigurau 2016-17, ond mewn rhai achosion bydd y data diweddaraf sydd ar gael gan HESA yn ymwneud â 2015-16.

<b>Myfyrwyr</b>	
<b>Niferoedd</b>	<b>Deilliannau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• 20,512 o geisiadau – cynnydd o 6.5%</li> <li>• 17,412 o fyfyrwyr israddedig</li> <li>• 3,419 o fyfyrwyr ôl-raddedig</li> <li>• 19% yn fyfyrwyr rhyngwladol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 88% o'r myfyrwyr yn fodlon (Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017)</li> <li>• Enillodd 77% radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch (16-17)</li> <li>• Enillodd 83% swydd lefel raddedig neu astudiaeth bellach o fewn chwe mis ar ôl graddio (DLHE 2017)</li> <li>• Ymhlith 30 uchaf The Guardian's Value Added Score 2018 – safle 26 yn y Deyrnas Unedig (wedi codi 11 safle)</li> </ul>
<b>Staffio</b>	
<p><b>Cyfanswm staff (FTE 15-16)</b> 2,745</p>	<p><b>Staff Academaidd/Ymchwil (FTE 15-16)</b> 1,285</p>

<b>Perfformiad</b>
<p><b>30 Gorau'r Deyrnas Unedig am Ragoriaeth Ymchwil</b> – safle 26 yn REF 2014 (wedi codi 26 safle)</p> <p><b>Enillydd</b> – Gwobr Dewis Myfyrwyr WhatUni 2017 – Ôl-raddedig a chyrraedd y pum prifysgol orau yn y Deyrnas Unedig bum mlynedd yn olynol (gan ennill yn 2014).</p> <p><b>Gwobr</b> – Prifysgol y Flwyddyn Cymru The Times Good University Guide 2017</p> <p><b>Safleoedd yn y Deyrnas Unedig</b> Safle 45 yn The Guardian University Guide 2018 Safle 44 yn Complete University Guide 2018 Safle 44 yn The Times Good University Guide 2017 – yr uchaf o brifysgolion Cymru.</p> <p><b>Safleoedd Byd-eang</b> 431-440 yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2017 301-350 yn Safleoedd Prifysgolion y Byd THE 2016-17</p>

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL MYFYRWYR

<b>KPI/DPA</b>	<b>Llwyddiant gradd myfyrwyr israddedig – cyfran yn ennill dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch</b>	
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth gefnogi myfyrwyr yn eu profiad dysgu	
<b>Blwyddyn</b>	<b>2015-16 (%)</b>	<b>2016-17 (%)</b>
	78.1	77.4

Ffynhonnell: Data mewnol

<b>KPI/DPA</b>	<b>Cyflogadwyedd graddedigion</b>	
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth gefnogi graddedigion i ennill swydd lefel broffesiynol neu symud ymlaen i astudiaethau pellach o fewn chwe mis ar ôl graddio	
<b>Blwyddyn</b>	<b>2015-16 (%)</b>	<b>2016-17 (%)</b>
	80.5	82.6

Ffynhonnell: Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch 2016 a 2017

<b>KPI/DPA</b>	<b>Bodlonrwydd Myfyrwyr</b>		
<b>Yn mesur</b>	Bodlonrwydd myfyrwyr ar eu profiad ac ansawdd yr addysgu		
<b>Blwyddyn</b>	<b>Ansawdd Addysgu (%)*</b>	<b>Profiad y Myfyrwyr (%)*</b>	<b>Bodlonrwydd Cyffredinol (%)*</b>
2016-17	81.3*	81.2*	88
2015-16	81.2	84.6	90

Ffynhonnell: \*NSS 2016 a 2017. Diweddarwyd cwestiynau NSS yn 2017, ac ni argymhellir cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol

<b>KPI/DPA</b>	<b>Cymhareb Staff / Myfyrwyr</b>		
<b>Yn mesur</b>	Nifer o fyfyrwyr academiaidd am bob aelod staff academiaidd		
<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer o fyfyrwyr</b>	<b>Nifer o staff academiaidd</b>	<b>Cymhareb Myfyrwyr/Staff</b>
2015-16	15,048	990	15.2
2014-15	13,829	942	14.7

Ffynhonnell: Cafwyd o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a ddefnyddir yn Nhablau Cynghair y Deyrnas Unedig

## AMRYWIAETH – MYFYRWYR

KPI/DPA	Canran o fyfyrwyr o gefndir difreintiedig (ehangu mynediad)	
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol at addysg uwch	
<b>Blwyddyn</b>	<b>O ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf (%)</b>	<b>O ardaloedd cyfoeth isel (%)</b>
2016-17	19.2	31.4
2015-16	20.8	32

Ffynhonnell: Dangosyddion Strategaeth Gorfforaethol HEFCW

KPI/DPA	Cyfran o Fyfyrwyr Gwrywaidd a Benywaidd	
<b>Yn mesur</b>	Cydbwysedd o ran rhywedd	
<b>Blwyddyn</b>	<b>Gwrywaidd</b>	<b>Benywaidd</b>
2015-16	9,215 (52.8%)	8,230 (47.2%)
2014-15	8,405 (52.4%)	7,620 (47.6%)

Ffynhonnell: Data HESA

KPI/DPA	Cyfran o Fyfyrwyr ag Anabledd	
<b>Yn mesur</b>	Cyfraddau cyfranogiad myfyrwyr anabl yn y Brifysgol	
<b>Blwyddyn</b>	<b>Anabledd</b>	<b>Dim anabledd</b>
2015-16	1,730 (9.9%)	15,715 (90.1%)
2014-15	1,560 (9.7%)	14,465 (90.3%)

Ffynhonnell: Data HESA

KPI/DPA	Ethnigrwydd (Myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig) – Cyfran o fyfyrwyr BAME	
<b>Yn mesur</b>	Cyfraddau cyfranogiad myfyrwyr du a lleiafrifoedd ethnig	
<b>Blwyddyn</b>	<b>BAME</b>	<b>Ddim yn BAME</b>
2015-16	1,485 (11%)	13,415 (89%)
2014-15	1,255 (9.5%)	11,975 (90.5%)

Ffynhonnell: Data HESA

KPI/DPA	Myfyrwyr Rhyngwladol	
<b>Yn mesur</b>	Gallu i ddenu myfyrwyr rhyngwladol/hyrwyddo amrywiaeth myfyrwyr	
<b>Blwyddyn</b>	<b>Y Deyrnas Unedig</b>	<b>Y tu allan i'r Deyrnas Unedig</b>
2015-16	14,180 (81.3%)	3,260 (18.7%)
2014-15	13,225 (82.6%)	2,775 (17.3%)

## AMRYWIAETH – STAFF

KPI/DPA	Rhywedd	
Yn mesur	Cydbwysedd staff o ran rhywedd	
Blwyddyn	Gwrywaidd	Benywaidd
2015-16	1,340 (45.5%)	1,610 (54.5%)
2014-15	1,355 (46.6%)	1,550 (53.3%)

Ffynhonnell: Data HESA (cyfwerth â pherson llawn)

KPI/DPA	Menywod mewn uwch swyddi	
Yn mesur	Staff benywaidd yn yr Uwch Dîm Rheoli – metrig mewnol	
Blwyddyn	2015-16	2016-17
	1 (14.3%)	1 (14.3%)

## NIFER O FYFYRWYR

Yr Holl Fyfyrrwr	Cartref	Tramor	Cyfanswm	Llwyth Cartref fte*	Llwyth Tramor fte*	Cyfanswm Llwyth fte*
Myfyrrwr Israddedig Amser Llawn	12,671	2,766	15,437	10,899	1,702	12,601
Myfyrrwr Israddedig Rhan-amser	1,973	2	1,975	249		249
Myfyrrwr Ôl-raddedig a Addysgir Amser Llawn	652	859	1,511	540	616	1,156
Myfyrrwr Ôl-raddedig a Addysgir Rhan-amser	935	61	996	220	2	222
Myfyrrwr Ôl-raddedig Ymchwil Amser Llawn	558	198	756	507	173	680
Myfyrrwr Ôl-raddedig Ymchwil Rhan-amser	142	14	156	64	4	68
Cynllunio ac eithrio busnes a ariannwyd gan CHHS						1,258
	<b>16,931</b>	<b>3,900</b>	<b>20,831</b>	<b>12,479</b>	<b>2,497</b>	<b>16,234</b>

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL ARIANNOL

KPI/DPA	Cymhareb Cynnal Dyledion – Sefydliad
<b>Yn mesur</b>	Cyfran o incwm gros sy'n cael ei wario ar gyllido dyledion (a llog)
<b>Blwyddyn</b>	
2016-17	3.02%
2015-16	2.46%

**Sylw:** Mae'r cynnydd yn cynrychioli dechrau ad-dalu ail gyfran y benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop, ad-daliad cyntaf y benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop a dau gytundeb consesiwn gwasanaeth newydd, ynghyd â chynnydd o ran ad-dalu'r cytundebau consesiwn gwasanaeth

KPI/DPA	Cymhareb Geriad Net – Sefydliad
<b>Yn mesur</b>	Cyfran ariannu dyledion i ecwiti
<b>Blwyddyn</b>	
2016-17	33.95%
2015-16	44.72%

**Sylw:** Mae'r gymhareb geriad net wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i ad-daliadau benthyciadau a chytundebau consesiwn gwasanaeth yn lleihau dyledion, cynnydd bach yn yr arian parod a ddelir a chynnydd sylweddol yn y cronfeydd

KPI/DPA	Diwrnodau o asedau hylifol net o gymharu â gwariant – Sefydliad
<b>Yn mesur</b>	Hylifedd – y gallu i dalu costau'r Brifysgol
<b>Blwyddyn</b>	<b>Diwrnodau</b>
2016-17	106
2015-16	110

**Sylw:** Nod y Brifysgol yw dal o leiaf digon o arian ar gyfer 35 diwrnod o wariant mewn asedau hylifol

KPI/DPA	Hylifedd – Cyfunol
<b>Yn mesur</b>	Cost gwasanaethu dyledion ar gyfer y flwyddyn fel canran o lif arian o weithgareddau gweithredol
<b>Blwyddyn</b>	
2016-17	28.66%
2015-16	62.68%

## YMCHWIL


KPI/DPA	Prosiectau ymchwil newydd	Twf mewn grantiau ymchwil a ddyfarnwyd
<b>Yn mesur</b>	Nifer o brosiectau ymchwil newydd	Gwerth contractau newydd
<b>Blwyddyn</b>	<b>Gwirioneddol</b>	<b>Gwirioneddol (£m)</b>
2016-17	293	65.1
2015-16	294	40.7




**DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL YSTADAU**

Cafwyd y data a ddefnyddiwyd o adroddiad data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Nid yw'r data a ddefnyddir yn yr enghraifft hon yn cynnwys Campws y Bae oherwydd nid oedd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau pan baratowyd yr adroddiad.


**Cyfanswm cost cyfredol ailadeiladu'r ystâd gyfan**




**Cyfanswm mynd i gostau rheoli eiddo ar gyfer yr ystâd gyfan**




**Cyfanswm lle a ddefnyddir fel % gan amrywiaeth o categorïau gan y Brifysgol gyfan**



**Cyfanswm lle a ddefnyddir mewn metrau gan amrywiaeth o categorïau gan y Brifysgol gyfan**



## Cyflwr Adeiladau gan ddefnyddio Methodoleg RICS




A : Fel newydd

B : Mewn cyflwr da yn weithredol, yn ddiogel ac yn dangos arwyddion bach o ddirywiad yn unig

C : Yn weithredol ond angen gwaith atgyweirio/ailosod mawr

D : Anweithredol/risg sylweddol o fethiant neu dorri i lawr

## Defnydd o ynni ar gyfer y safle cyfan




## ADRODDIAD ARIANNOL Y SEFYDLIAD

### CYFLWYNIAD

Mae Datganiadau Ariannol 2017, ynghyd â ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol, wedi'u paratoi yn unol â safon cyfrifyddu FRS 102 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP).

### INCWM




Bu gostyngiad o 6% mewn incwm o £296 miliwn i £278 miliwn rhwng 2016 a 2017. O fewn incwm, y gostyngiad mwyaf oedd Incwm Arall (gostyngiad o £29 miliwn), ynghyd â gostyngiad mewn Grantiau Corff Ariannu (£3 miliwn), ond cynnydd pellach mewn Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg yn 2017 (cynnydd o £16 miliwn).

O fewn Incwm Arall ar gyfer 2016 roedd rhyddhau grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ar gyfer Campws y Bae. Yn 2017, gostyngodd Rhyddhau Grantiau Cyfalaf i £5 miliwn (£48 miliwn yn 2016). Mae'r newid hwn o ganlyniad i Safon Cyfrifyddu FRS102, lle caiff grantiau eu rhyddhau yn llawn ar ôl bodloni'r holl amodau perfformio h.y. cwblhau'r gwaith adeiladu. Mae'n debygol y bydd y ffigur hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar amseru cwblhau gwaith adeiladu a grantiau cyfalaf perthynol.


## GWARIANT

Bu cynnydd o £15 miliwn mewn gwariant rhwng 2016 a 2017.



Mae dadansoddiad pellach o wariant isod, sy'n dadansoddi costau fesul categori gweithgarwch (cyn llog a dibrisiant). Mae'r costau wedi parhau'n eithaf sefydlog, gan gynyddu fel y disgwyl yn gyffredinol, yn unol ag incwm.


## Expenditure



Caiiff y rhan fwyaf o incwm y Brifysgol ei wario ar redeg y Brifysgol o ddydd i ddydd, ond caiff unrhyw arian sy'n weddill ei ailuddsoddi er mwyn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel ar draws y Brifysgol.

Er 2012 mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol ar wariant cyfalaf i ddiweddarau cyfleusterau'r Brifysgol. Ariannwyd £60 miliwn gan fenthyciadau, gyda'r gweddill o grantiau, prydles i refsersiynol ac ailuddsoddi cronfeydd.

## YMCHWIL



Mae ymchwil wedi parhau'n eithaf sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, er y bu cynnydd mewn ariannu gan lywodraeth yr Undeb Ewropeaidd (cynnydd o £7 miliwn rhwng 2016 a 2017) a gostyngiad mewn ariannu gan y Cyngor Ymchwil (gostyngiad o £7 miliwn er 2016).

## CYMYNRODDION A RHODDION

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Brifysgol nifer o roddion a chymynroddion, gan gynnwys cyfraniadau tuag at ysgoloriaethau a'r Brifysgol yn gyffredinol.

## Y FANTOLEN A CHRONFEYDD WRTH GEFN

Mae cryfder y Fantolen yn parhau i wella bob blwyddyn. Bu cynnydd o £38 miliwn yn y cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn ar ôl eu rhyddhau o'r gronfa ailbrisio wrth gefn (+£1 miliwn) ac addasu mewn perthynas ag elw actiwaraid y cynllun pensiwn (+£18 miliwn). Cyfanswm cynnydd y gronfa wrth gefn yn y flwyddyn oedd £37 miliwn.

Cynyddodd gwerth yr asedau sefydlog £8 miliwn, sy'n ymwneud yn bennaf â chyfalaf adeiladu wedi tynnu dibrisiant adeiladau. Roedd yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn £2 miliwn yn uwch nag ar ddechrau'r flwyddyn.

Cynyddodd y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn llai na blwyddyn £14 miliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd credydwy'r mewn perthynas â phrosiectau ymchwil. Lleihaodd credydwy'r sy'n ddyledus o fewn mwy na blwyddyn £4 miliwn, sef yr ad-daliadau benthyciadau a lleihau rhwymedigaethau'r cytundebau consesiwn gwasanaeth. Lleihaodd y ddarpariaeth bensiynau'n sylweddol, oherwydd yr elw actiwaraid ar Gynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe.

## RHEOLI ARIANNOL

Mae rheoli ariannol y Brifysgol yn dod yn fwy cymhleth o ganlyniad i'r trefniadau cyllido ac ariannu. O ganlyniad i ddulliau ariannu newydd, megis y benthyciad o EIB, yn ogystal â derbyniadau sylweddol mewn Ewros, mae'r Brifysgol yn rhoi mwy o sylw i reoli ariannol, ac yn arbennig i reoli'r llif arian.

## ARGOEL

Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ei hystâd, a bydd hynny'n dominyddu ei sefyllfa ariannol dros y ddeng mlynedd nesaf. Mae'n gwneud hynny yn ystod cyfnod o gryn ansicrwydd o ran lefel y cyllid a fydd ar gael i'r sector mewn blynyddoedd i ddod. Bydd datblygiad strategol Prifysgol Abertawe yn creu ased trawsnewidiol ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe, yn ogystal â Chymru gyfan.

O ystyried y cefndir economaidd ehangach, mae cyfnodau heriol o'n blaenau. Er hynny, gyda rheolaeth gref a gweithlu cryf mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn ei chynlluniau strategol ac wrth gyflawni ei hamcanion. Mae twf cryf y Brifysgol yn ddiweddar, a'i safleoedd gwell yn nhablau cynghair y sector, yn golygu bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Mae ei nodau, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu wedi'u hamlinellu yn y Siarter Atodol a'i Statudau cefnogol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2007. Cofrestrodd y Brifysgol fel elusen yn 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

**Y Cyngor** yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol, ac am osod cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Ymdrecha'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn unol â'r saith egwyddor a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth), ac yn unol â'r arweiniad i brifysgolion gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol yn ei Gôd Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014 a ddisodlodd y Côd Ymarfer Llywodraethu blaenorol a ymgorfforwyd yn yr Arweiniad i Aelodau Cyrff Llywodraethu Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig.

O ran y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017, gall y Cyngor adrodd: (i) nad oedd unrhyw elfen o'r Côd Ymarfer Llywodraethu nad oedd ymarfer y Brifysgol yn gyson â hi a (ii) y rhoddwyd Cynllun Gweithredu ar waith i sicrhau aliniad llawn â'r Côd Addysg Uwch newydd ar waith.

Mae'r Brifysgol yn adolygu effeithiolrwydd y Cyngor yn rheolaidd, a chynhaliwyd yr adolygiad allanol cyntaf yn 2012. Daeth yr adolygiad allanol hwn i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal ei ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Mae copi o adroddiad llawn yr adolygiad ar gael ar wefan y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i'r safonau uchaf o ran agoredrwydd, cywirdeb ac atebolrwydd, a cheisia gynnal ei thrafodion yn gyfrifol ac mae ganddi Bolisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol i fynegi unrhyw bryderon sydd o ddiddordeb cyhoeddus.

Daw'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r Brifysgol (a ddisgrifir fel aelodau lleeg), a rhaid dewis y Cadeirydd o'u plith. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff a myfyrwyr hefyd. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleeg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith ar ran y Brifysgol.

**Y Senedd** yw awdurdod academaidd y Brifysgol. Daw aelodau'r Senedd o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gwaith dysgu ac ymchwil y Brifysgol.

Mae'r **Llys** yn gorff mawr, ffurfiol. Cynigia ffyrdd i'r rhanddeiliaid ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol gysylltu â'r sefydliad, ac mae'n darparu fforwm cyhoeddus er mwyn i aelodau'r Llys godi unrhyw fater ynghylch y Brifysgol. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Brifysgol wedi'u harchwilio.

Bydd y rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr.

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n atebol yn gyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn y Brifysgol. Yn unol â thelerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-ganghellor yw swyddog cyfrifyddu'r Brifysgol, ac yn rhinwedd y swydd honno gellir ei wysio i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

Er bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn academaidd, pwyllgorau sy'n gwneud llawer o'i waith manwl i ddechrau, ac yn arbennig y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio.



Disgrifir rôl y pwyllgorau hyn isod:

Mae'r **Pwyllgor Cyllid** yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannol cynlluniau strategol a phrosiectau mawr ac yn cymeradwyo cyllidebau gweithredu manwl i'w cyflwyno i'r Cyngor. Yn ogystal â hyn mae'r Pwyllgor yn monitro'r perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb yn barhaus ac yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannu cynlluniau cyfalaf.

Mae'r **Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol** yn cynghori'r Cyngor ar bolisiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol y Brifysgol yng nghyd-destun strategaeth y Brifysgol, newidiadau deddfwriaethol ac arfer cyfogaeth da.

Mae'r **Pwyllgor Enwebiadau** yn helpu i sicrhau bod strwythur pwyllgorau'r Brifysgol yn parhau'n "addas i'r diben" ac yn gweithredu'n effeithiol. Ar ran y Cyngor mae'n rheoli newidiadau i gyfansoddiadau, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor. Mae'n gwneud argymhellion hefyd i'r Cyngor ar gyfer penodi Swyddogion Lleyg y Brifysgol ac ar gyfer cyfethol i'r Cyngor.

Y **Pwyllgor Cydnabyddiaeth** Ariannol sy'n penderfynu ar daliadau blyneddol yr Is-ganghellor, y staff athrawol a staff gweinyddol uwch.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn cwrrd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys unwaith gyda'r archwilyr allanol i drafod canlyniadau'r archwiliad ac i adolygu datganiadau ariannol a pholisiau cyfrifyddu'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn cwrrd â'r archwilyr mewnol i ystyried adolygu systemau rheoli mewnol ac i ymdrin ag argymhellion ar gyfer gwella'r cyfryw systemau. Mae hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan y Cyngor Cyllido gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac yn monitro ymlyniad wrth ofynion rheoleiddio.

Mae'r holl bwyllgorau hyn wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau lleyg y Cyngor. Cadeirir pob pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Archwilio, mae'r holl aelodau'n annibynnol ar reolaeth y Brifysgol, ond mae uwch weithredwyr yn mynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen.

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor ddylanwad sylweddol o ran datblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a rhoi cyfeiriad i ethos y sefydliad. Mae'r Dirprwy Is-gangellorion a'r uwch swyddogion proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond erys yr awdurdod pennaf gyda'r Cyngor.

Mae'r Brifysgol yn cadw cofrestr o fuddiannau aelodau'r Cyngor a'r uwch swyddogion, a gellir gweld y gofrestr drwy drefniant â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu.

Mae rôl Ysgrifennydd y Cyngor wedi'i diffinio yn Ordinhadau'r Brifysgol. Mae Ysgrifennydd y Cyngor hefyd yn Ysgrifennydd rhai o Bwyllgorau'r Cyngor.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

### CYFLWYNIAD

Yn unol â Siarter Ymgorffori'r Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli trafodion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system rheoli mewnol effeithiol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg. Mae hefyd yn gyfrifol am alluogi'r Brifysgol i sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Siarter Gorffori'r Brifysgol; y Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ogystal â hyn, o fewn telerau ac amodau Memorandwm Ariannol y cytunir arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei ddeiliad swydd dynodedig, i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr trafodion y Brifysgol ac o'r gwargred neu ddiffyg neu lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn honno.

**Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor wedi sicrhau'r canlynol:**

- bod polisiau cyfrifyddu addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson
- deuir i farn a llunnir amcangyfrifon mewn modd rhesymol a darbodus
- bod safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- bod datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld; gan hynny mae'r sail busnes gweithredol yn parhau i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:**

- sicrhau mai dim ond at y dibenion y cafodd yr arian ei roi y defnyddir arian gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), a hynny yn unol â'r Memorandwm Ariannol â'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheolaethau rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill
- diogelu asedau'r Brifysgol ac atal a datgelu twyll
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheoli mewnol y Brifysgol, a ddylunnir i weithredu'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau gwasanaethau academiaidd a phroffesiynol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor byr a thymor canolig, wedi'i hategu gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian manwl
- adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd ar amrywiannau a rhoi diweddariadau ar y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn
- bod gofynion wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, a bod penderfyniadau buddsoddi sylweddol yn ymwneud â gwariant cyfalaf neu refeniw yn amodol ar arfarniad ffurfiol ac adolygiad manwl gan y Pwyllgor Cyllid
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn manylu ar y gweithdrefnau a'r rheolaethau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid
- gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Fel rhan o hynny, mae pennaeth y gwasanaeth yn rhoi adroddiad i'r Cyngor ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Brifysgol ac yn cyflwyno ei farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Brifysgol, gan gynnwys rheoli ariannol mewnol.

Mae elfennau allweddol system adnabod a rheoli risg y Brifysgol, a ddylunnir i weithredu'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r gwaith o nodi a rheoli risg â'r nod o gyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol
- gwerthuso'r debygolïaeth y daw risgiau yn realiti, a'r effaith y cânt, fel rhan o'r un broses honno a sefydlu rheolaethau lliniaru
- bod â gweithdrefnau adolygu sy'n cwmpasu risgiau busnes, risgiau gweithredol, risgiau cydymffurfio a risgiau ariannol
- cynnwys asesiad risg a phrosesau rheoli mewnlol yng ngweithrediadau parhaus yr holl unedau
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnlol a risg
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r gwaith o nodi risgiau, eu gwerthuso a'u hadolygu gan y rheolwyr.

Gall unrhyw system rheoli mewnlol, fodd bynnag, ddarparu hyder rhesymol yn unig, nid absoliwt, yn erbyn camddatgan neu golled faterol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Brifysgol yn agored iddynt ynghyd â'r mesurau rheoli gweithredol, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i lliniaru'r risgiau hyn. Mae'r Cyngor o'r farn bod proses barhaus ffurfiol yn bodoli ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Brifysgol sydd wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Adolygir y broses hon yn rheolaidd gan y Cyngor.

# ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWA (Y "SEFYDLIAD")

## ADRODDIAD AR ARCHWILIAD Y DATGANIADAU ARIANNOL

### Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Abertawe a datganiadau ariannol y rhiant-sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y grŵp a'r rhiant sefydliad ar 31 Gorffennaf 2017, ac o incwm, gwariant a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland", a chyfreithiau perthnasol);
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch;
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol a gynhwysir yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a Datganiadau Ariannol 2016 – 2017 (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys: y mantolenni cyfunol a'r rhiant-sefydliad ar 31 Gorffennaf 2017; y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Cyfrif Incwm a Gwariant cyfunol ac ar gyfer y rhiant-sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad Llif Arian cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r Polisiâu Cyfrifyddu a nodiadau'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys gwybodaeth esboniadol arall.

### Sail Barn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Deyrnas Unedig) ("ISAs (UK)") a chyfreithiau perthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau yn unol ag ISAs (UK) yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth Archwilio Datganiadau Ariannol ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

### Annibyniaeth

Parhaom yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i archwilio datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

### Casgliadau mewn perthynas â phryder barhaus

Nid oes unrhyw beth gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae ISAs (UK) yn gofyn i ni adrodd arnynt:

- nid yw defnydd y Cyngor o'r sail pryder barhaus cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a allai achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau i fabwysiadu sail pryder barhaus cyfrifyddu am gyfnod o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyflwyno.

Am na ellir rhagweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol, fodd bynnag, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau fel pryder barhaus.

### Adrodd ar wybodaeth arall

Mae Gwybodaeth Arall yn cynnwys holl wybodaeth yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr arnynt. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall, felly nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw sicrwydd arall yn eu cylch, ac eithrio i'r graddau y datgenir hynny'n bendant fel arall yn yr adroddiad hwn.

Yn gysylltiedig â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un ai bod y wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'n gwybodaeth o ganlyniad i'r archwiliad, neu os ymddengys ei bod wedi'i chamddatgan yn faterol fel arall. Os ydym yn dod ar draws anghysondeb materol ymddangosiadol neu gamddatganiad materol, mae'n ofynnol i ni weithredu gweithdrefnau i ganfod a oes camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol neu yn y wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith a wnaethpwyd, ydym yn dod i gasgliad bod camddatganiad materol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith hon. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Ar sail y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'n gwaith wrth gyflawni'r archwiliad, mae ISAs (UK) hefyd yn gofyn ein bod yn adrodd rhai barnau a materion penodol a ddisgrifir isod.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr: Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol ein bod yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni, nad yw'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn gyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

### **Cyfrifoldeb am y datganiadau ariannol a'r archwiliad**

#### **Cyfrifoldebau'r Cyngor am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fwy llawn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor ar dudalen 21, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn ei farn ef i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatgan materol, boed drwy dwylllo neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau fel pryder barhaus, gan ddatgelu lle bo'n briodol unrhyw faterion sy'n ymwneud â phryder barhaus a defnyddio sail pryder barhaus cyfrifyddu, oni bai bod y Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad neu atal gweithrediadau, neu os nad oes unrhyw ddewis realistig arall heblaw gwneud hynny.

#### **Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Rydym yn gymwys i weithredu, ac wedi cael ein penodi, fel archwilwyr yn unol ag Adran 144(2) Deddf Elusennau 2011.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatgan materol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu wall, a chyflwyno adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn datgelu camddatganiad materol. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall, ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu'n gyfansymiol, gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerwyd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad yn ffurfio rhan o adroddiad yr archwilwyr.

#### **Defnyddio'r adroddiad hwn**

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y sylwadau, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y sefydliad, a Chyngor y sefydliad yn unig, fel corff yn unol â Siarteri a Statudau'r sefydliad ac adran 144 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 y Ddeddf honno (Rheoliad 30 o Reoliadau'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac nid at unrhyw ddibenion eraill. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddefnyddio at ddiben arall nac am ddangos na rhoi'r adroddiad hwn i neb arall ac eithrio lle rydym wedi cytuno yn benodol i hynny drwy roi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

### **ADRODD GOFYNNOL ARALL**

#### **Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992**

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae gofynion HEFCW o ran cyfrifon wedi'u bodloni;
- mae'r arian a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, o ba ffynhonnell bynnag y daeth, wedi'i ddefnyddio'n briodol at y dibenion ac wedi ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw delerau ac amodau eraill sydd ynghlwm wrtho; ac
- defnyddiwyd arian a ddarparwyd gan HEFCW yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw amodau a thelerau eraill sydd ynghlwm wrthynt.

#### **Digonolrwydd y cofnodion cyfrifyddu a'r wybodaeth a'r esboniadau a dderbyniwyd**

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r rhiant-sefydliad wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

#### **Rheolaeth Fewnol**

Yn unol â Chôd Ymarfer HEFCW, a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'n ofynnol ein bod yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, nad yw'r datganiad rheolaeth fewnol a gynhwysir fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn gyson â'n gwybodaeth am y rhiant sefydliad a'r grŵp. Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

### **PRICEWATERHOUSECOOPERS PAC**

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol, Abertawe

## DATGANIAD O'R PRIF BOLISIÂU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FRS102 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Uwch.

### 1. SAIL BARATOI

Mae'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor wedi cael eu paratoi'n unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (2015) ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu penodol. Mae Prifysgol Abertawe yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol y safonau cyfrifyddu perthnasol. Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (addaswyd gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur rhai offerynnau ariannol ar bris teg).

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail pryder parhaus. Teimla aelodau'r Cyngor fod hyn yn briodol am fod gan y Brifysgol adnoddau ariannol sylweddol ynghyd â gwerth sylweddol incwm contractau yn y tymor canolog. Adolygodd aelodau'r Cyngor y rhagolygon a chydymffurfiaeth â chyfamodau rhagolygon drwy gydol y flwyddyn. Cred aelodau'r Cyngor, felly, eu bod mewn sefyllfa gref i reoli'r risgiau busnes, er gwaethaf y newidiadau parhaus o ran ariannu yn y sector.

Caiff barnau'r rheolwyr wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol ac amcangyfrifon â risg sylweddol o addasiad materol yn y flwyddyn nesaf eu trafod yn Nodyn 19 y polisi cyfrifyddu.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunedig yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol i 31 Gorffennaf 2017. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunedig yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

### 2. CYDNABOD INCWM

Credydincwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (cyfnewid trafodion) i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr pan y gellir mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, y gellir mesur cyfnod cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, mae'n debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r Brifysgol a phan y gellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir neu arfaethedig yn ddibynadwy.

Caiff incwm ffioedd ei ddatgan fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr dros gyfnod astudio'r myfyrwyr. Pan fydd swm y ffi addysgu wedi'i ostwng gan ddisgownt ar gyfer talu'n brydlon, dangosir yr incwm a dderbynnir net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynsyth fel gwariant ac nid ydynt wedi'u diddymu o incwm.

Mae arian y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i ddostalu fel asiant talu ar ran corff ariannu wedi'i eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n mwynhau budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodion.

Caiff grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc Cyngor Ariannu a grantiau ymchwil gan ffynonellau'r Llywodraeth a ffynonellau eraill, a rhoddion gan ffynonellau anlywodraethol gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anlywodraethol, eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm ac y bodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei ohirio ar y Fantolen a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â bodloni amodau felly.

Caiff grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth ar gyfer tir eu cyfrif yn unol â'r model perfformio fel y polisi ar gyfer Grantiau Llywodraeth a nodir uchod.

Caiff contractau ymchwil masnachol eu cyfrif yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (cyfnewid trafodion) uchod.

Caiff grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anlywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anlywodraethol, eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm ac y bodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei ohirio ar y Fantolen a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â bodloni amodau felly.

Rhoddion a gwaddolion yw trafodion digyfnawd heb amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau a nodwyd gan y rhoddwr eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir yr incwm yn y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn tan y gellir ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau, a bryd hynny caiff yr incwm ei ryddhau i'r gronfa wrth gefn gyffredinol drwy drosglwyddiad cronfa wrth gefn.

Caiff incwm o fuddsoddiadau ac adbrisiant gwaddolion eu cofnodi yn y flwyddyn maent yn codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol ag amodau'r cyfyngiad ar y gronfa waddol unigol.

Caiff rhoddion heb gyfyngiadau eu cofnodi yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Caiff rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau eu dosbarthu fel cronfeydd cyfyngedig wrth gefn a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Mae pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion anghyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol yn hytrach na phrynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Sefydliad droi'r swm a roddir yn incwm.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w chymhwyso i amcan penodol.

### 3. CYFRIFYDDU AR GYFER BUDDION YMDDEOL

Y tri phrif gynllun i staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig a ariennir yn allanol ac sydd wedi'u contractio'n allan i Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Pennir gwerth pob cronfa bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae USS yn gynllun amlgyflogwr ac nid yw'n bosib adnabod asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol oherwydd natur gilyddol y Cynllun. Caiff y Cynllun ei gyfrif, felly, fel cynllun budd ymddeol cyfraniad diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad contractiol i ariannu diffygion blaenorol yn y Cynllun USS.

#### Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig yn gynllun budd ôl-gyflogaeth lle mae cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy arno i dalu symiau pellach. Caiff rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan dderbyniodd y gweithwyr y gwasanaethau.

#### Cynllun Budd Diffiniedig

Mae Cynllun Budd Diffiniedig yn gynllun budd ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Cyfrifir rhwymedigaeth net y Grŵp o ran cynlluniau pensiwn diffiniedig drwy amcangyfrif swm y buddion yn y dyfodol y bydd gweithwyr wedi'u hennill am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; gostyngir y budd i bennu'i werth presennol, a thynnir gwerth teg asedau'r cynllun (ac unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol heb eu cydnabod) i ffrwd. Cyfradd ddisgownt y rhwymedigaeth yw'r elw ar ddyddiad y fantolen ar fondiau credyd AA yn yr arian cyfred ac â dyddiadau aeddfedu sydd oddeutu telerau rhwymedigaethau'r grŵp. Mae actiwari cymwysedig yn gwneud y cyfrifiad gan ddefnyddio'r dull credyd uned arfaethedig. Pan fo'r cyfrifiad yn golygu budd i'r Brifysgol, caiff yr ased cydnabyddedig ei gyfyngu i gyfanswm unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol heb eu cydnabod a gwerth presennol buddion sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau o'r cynllun yn y dyfodol, gostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol i'r cynllun neu ar derfynu'r cynllun, ac ystyria effaith andwyol unrhyw ofynion ariannu.

#### 4. BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y bu'r gweithwyr yn gweithio i'r Brifysgol. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu crynhoi a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Brifysgol ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio. Cydnabyddir hawl gwyliau blynyddol ar 31 Gorffennaf fel credydwr staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb ei ddefnyddio gan academyddion oherwydd nid oes rhwymedigaeth.

#### 5. PRYDLESI CYLLID

Caiff prydlesi lle mae'r Brifysgol yn cymryd holl risgiau a gwobrwyon perchenogaeth yr ased ar brydles eu dosbarthu fel asedau cyllid. Caiff asedau ar brydles a geir drwy brydles gyllid eu datgan ar yr isaf o'u gwerth teg neu werth presennol yr isafswm taliad prydles adeg dechrau'r brydles, wedi tynnu dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Cyfrifir am daliadau prydles fel y disgrifir isod.

Rhennir isafswm taliadau prydles rhwng y gost cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n weddill. Dosbarthir y gost cyllid ym mhob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd gyfnodol gyson ar gyfer llog ar falans y rhwymedigaeth.

#### 6. CYTUNDEBAU CONSESIWN GWASANAETH

Caiff asedau sefydlog a ddelir fel rhan o Drefniadau Consesiwn Gwasanaeth eu cydnabod ar y fantolen ar werth presennol yr isafswm taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Caiff taliadau fel rhan o Drefniadau Consesiwn Gwasanaeth eu dyrannu rhwng costau gwasanaethau, costau cyllid a thaliadau rhwymedigaeth ariannol i leihau'r rhwymedigaeth ariannol i ddim dros fywyd y trefniadau.

Mae preswylfeydd Campws y Bae a Champws Parc Singleton wedi'u dosbarthu fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

#### 7. PRYDLESI GWEITHREDU

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff unrhyw anogaethau neu bris prydlesi eu hymestyn dros isafswm tymor y brydles.

#### 8. ARIAN TRAMOR

Trosir trafodion mewn arian tramor i'r bunt sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodion. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor ar y fantolen eu haildrosi i'r arian cyfred gweithredol ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad dan sylw. Caiff gwahaniaethau mewn cyfradd gyfnewid sy'n codi adeg trosi eu cydnabod yn y Datganiad Incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodion.

#### 9. ASEDAU SEFYDLOG

Nodir asedau sefydlog ar y gost dybiedig wedi tynnu dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Ailbrisiwyd tir ac adeiladau i werth teg ar ddyddiad y newid i SORP Addysg Uwch 2015. Mesurir y rhain ar sail cost dybiedig, sef y swm ailbrisiu ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm ailbrisiu a'r gost hanesyddol ei gredydu i'r gronfa ailbrisiu wrth gefn. Caiff swm sydd gyfwerth â'r dibrisiant sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisiu wrth gefn i enillion argadwedig ar sail flynyddol.

Lle bo gan rannau o asedau fywyd defnyddiol gwahanol, cyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei fywyd defnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywyd defnyddiol disgwyliedig i'r Brifysgol o rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros fywyd y brydles hyd at uchafswm o 50 mlynedd.



## Cyfarpar

Caiff cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 am bob eitem unigol eu dibrisio ym mlwyddyn eu prynu. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu cyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar eu cost a'u dibrisio dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig. Y bywyd defnyddiol disgwylidig yw 3-5 mlynedd, ac eithrio amgylchiadau eithriadol lle tybir bod y bywyd defnyddiol yn hirach neu'n fyrrach.

Caiff dulliau dibrisio, bywyd defnyddiol a gwerth dros ben eu hadolygu ar ddyddiad paratoi'r Fantolen.

## Cerbydau

Datgenir cerbydau am y gost a chânt eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig.

Caiff dulliau dibrisio, bywyd defnyddiol a gwerth dros ben eu hadolygu ar ddyddiad paratoi'r Fantolen.

## Costau Benthycu

Cydnabyddir Costau Benthycu fel treuliau yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau.

## 10. ASEDAU TREFTADAETH

Caiff gweithiau celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar gost neu werth y caffaeliad, lle bo modd rhesymol pennu'r gost neu'r gwerth.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiant yn faterol.

## 11. BUDDSODDI MEWN EIDDO

Mae buddsoddi mewn eiddo yn cynnwys tir ac adeiladau a gedwir i ennill incwm rhentu neu gynydd cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Caiff buddsoddi mewn eiddo ei fesur am y gost, ac wedi hynny am werth teg, gan gydnabod unrhyw newidiadau yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio, ond caiff eu gwerth ei ailbriso neu'i adolygu yn ôl amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

## 12. BUDDSODDIADAU

Cedwir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen am y gost wedi'i hamorteiddio wedi tynnu amhariad.

Cynhelir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a phartneriaid am y gost wedi tynnu amhariad yn natganiadau ariannol y Brifysgol.

Cedwir buddsoddiadau asedau cyfredol am werth teg a chydabyddir unrhyw newidiadau yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

## 13. STOC

Mae stoc wedi'i ddal ar yr isaf o gost gwerth net y gellir ei wireddu.

## 14. ARIAN PAROD A CHYFWERTH

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adnevon sy'n ad-daladwy ar alw a gorddraffiau. Mae adnevon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae arian cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn barod i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg o newid eu gwerth.

### 15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiadau Ariannol pan:

- a) fo rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongladwy) ar y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- b) ei bod yn debygol y bydd angen echlif buddion economaidd i derfynu'r rhwymedigaeth; ac
- c) y gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgownt ar y llif arian disgwylidig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol y caiff ei bodolaeth ei chadarnhau dim ond drwy achos neu fel arall o ddigwyddiadau penodol yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen echlif adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle cynhaliwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol y caiff ei fodolaeth ei chadarnhau dim ond drwy achos neu fel arall o ddigwyddiadau amhenodol yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau nac asedau amodol yn y Fantolen, ond fe'u datgelir yn y Nodiadau.

### 16. CYFRIFO AM WEITHREDIADAU AR Y CYD, ASEDAU A REOLIR AR Y CYD A GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn cyfrifo am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifo am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### 17. TRETHIANT

Mae'r Brifysgol yn elusen sydd wedi'i heithrio o fewn ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Mae'n elusen, felly, o fewn ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r sefydliad fod wedi'i eithrio o dreth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trehadwy 1992, i'r graddau y cymhwysir incwm neu enillion felly at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAWV anadferadwy ar fewnbynnau wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynnau. Mae unrhyw TAWV anadferadwy a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu treth gorfforaeth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol arall.

### 18. CRONFEYDD WRTH GEFN

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae cronfeydd wrth gefn gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau y'u cedwir, drwy waddol i'r Brifysgol, fel cronfa gyfyngedig barhaol am fod rhaid i'r Brifysgol gadw'r gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle bo'r rhoddwr wedi pennu diben penodol, felly mae cyfyngiad ar y Brifysgol o ran defnyddio'r cronfeydd hyn.

## 19. BARNAU AC AMCANGYFRIFON ARWYDDOCAOL

Mae'r barnau ac amcangyfrifon arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

### Asedau Sefydlog Diriaethol

Ailbrisiwyd tir ac adeiladau adeg mabwysiadu FRS102. Cyflawnwyd y broses ailbriso gan syrfewyr meintiau cymwysedig ar sail adolygiad annibynnol o'r ystâd a gwybodaeth ategol gan y Brifysgol.

Wrth ailbriso'r tir ac adeiladau, adolygwyd a diweddarwyd bywyd defnyddiol yr adeiladau gan syrfewyr annibynnol ar sail asesiad o oedran a chyflwr yr ystâd.

### Adferadwyedd dyledwyr

Mae'r polisi o ran darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ansicr yn benodol ar gyfer pob dosbarth dyled ac wedi'i seilio ar amgylchiadau ac adferiad dyledion gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn. Pennir bod modd adfer unrhyw ddyledion nas darparwyd.

### Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (nid oes modd i aelodau newydd ymuno mwyach). Cynhelir prisio actiwaraidd y Cynllun fel y pennir gan yr Ymddiriedolwyr bob tair blynedd fan bellaf.

Caiff costau pensiwn yn unol â SORP Addysg Uwch ac FRS102 eu hasesu yn unol â chyngor actiwaraidd annibynnol ar sail y prisio actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau'r actiwaraidd. Mae'r thybiaethau wedi'u seilio ar wybodaeth a ddarparodd y Brifysgol i'r actiwaraidd, wedi'u hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwaraidd a'r rheolwyr. Dogfennir y thybiaethau yn Nodyn 31.

Cyfrifir am Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) fel cynllun cyfraniadau diffiniedig am nad oes digon o wybodaeth ar gael i ddefnyddio cyfrifo buddion diffiniedig. Am fod ymrwymiad contractiol ar y Brifysgol, fodd bynnag, i dalu cyfraniadau USS i ariannu diffygion blaenorol, nodir yr ymrwymiad hwn ar y fantolen.

Mae cynllun adfer diffygion USS yn gosod cyfran cyfraniadau blynyddol sy'n ymwneud ag adfer diffygion blaenorol, a'r cyfnod sy'n gymwys iddynt. Caiff y cyfraniadau hyn a glustnodwyd ar gyfer diffygion eu hailasesu pan pennir gwerth y cynllun bob tair blynedd, ac maent yn sail i'r ddarpariaeth, ynghyd â thybiaethau ar ffactorau disgownt a chwyddiant priodol.

# DATGANIADAU INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL AC AR GYFER Y SEFYDLIAD

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017

Nodiadau	Cyfunol		Y Brifysgol		
	31 Gorffennaf 2017	Y Brifysgol 31 Gorffennaf 2017	Cyfunol 31 Gorffennaf 2016	Y Brifysgol 31 Gorffennaf 2016	
	£000	£000	£000	£000	
<b>INCOME</b>					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	156,058	156,058	140,356	140,356
Grantiau Cyrff Ariannu	2	20,767	20,767	23,418	23,418
Grantiau a chontractau ymchwil	3	41,778	41,778	43,346	43,346
Incwm arall	4	59,164	58,726	88,335	87,908
Incwm o fuddsoddi	5	257	257	380	380
<b>Cyfanswm incwm cyn gwaddolion a rhoddion</b>		<b>278,024</b>	<b>277,586</b>	<b>295,835</b>	<b>295,408</b>
Rhoddion a Gwaddolion	6	129	128	457	456
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>278,153</b>	<b>277,714</b>	<b>296,292</b>	<b>295,864</b>
<b>GWARIANT</b>					
Costau staff	7	132,807	132,383	129,601	129,202
Treuliau gweithredu eraill		101,288	101,227	89,260	88,997
Dibrisiant	11	18,174	18,050	18,277	18,164
Llog a chostau ariannol eraill	8	7,170	7,170	7,281	7,281
<b>Cyfanswm gwariant</b>	9	<b>259,439</b>	<b>258,830</b>	<b>244,419</b>	<b>243,644</b>
<b>Gwarged / (Diffyg) cyn enillion eraill, colledion a chyfran o (diffyg) gweithredol mewn cyd-fentrau a chymdeithion</b>		<b>18,714</b>	<b>18,884</b>	<b>51,873</b>	<b>52,220</b>
Elw / (Colled) ar werthu asedau sefydlog		75	-	(671)	(671)
Elw ar fuddsoddiadau	14/17	375	282	771	79
Cyfran o (diffyg) Gweithredol cyd-fentrau	15	(256)	(256)	(278)	(278)
<b>Gwarged / (Diffyg) cyn treth</b>		<b>18,908</b>	<b>18,910</b>	<b>51,695</b>	<b>51,350</b>
Trethiant	10	(16)	-	(37)	(20)
<b>Gwarged am y flwyddyn</b>		<b>18,892</b>	<b>18,910</b>	<b>51,658</b>	<b>51,330</b>
(Colled) / Elw Actiwaraid mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	31	18,400	18,400	(19,500)	(19,500)
<b>Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>37,292</b>	<b>37,310</b>	<b>32,158</b>	<b>31,830</b>
<b>Cynrychiolwyd gan:</b>					
Incwm cynhwysfawr gwaddolion ar gyfer y flwyddyn	22	313	313	152	152
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		36,979	36,997	32,006	31,678
		<b>37,292</b>	<b>37,310</b>	<b>32,158</b>	<b>31,830</b>

Yr holl incwm a gwariant mewn perthynas â gweithgareddau parhaus.

# DATGANIADAU O NEWIDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL AC AR GYFER Y SEFYDLIAD

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017

	Cronfa incwm a gwariant wrth gefn		Cronfa ailbrisio	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn
	Gwaddolion £000	Anghyfyngedig £000	£000	£000
<b>CYFUNOL</b>				
<b>Ar 1 Awst 2015</b>	5,674	67,282	64,507	137,463
Gwarged am y flwyddyn	152	51,506	-	51,658
Gwariant cynhwysfawr arall	-	(19,500)	-	(19,500)
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	15,535	(15,535)	-
Rhyddhau cronfeydd cyfalaf cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	-	-	-	-
<b>Ar 31 Gorffennaf 2016</b>	5,826	114,823	48,972	169,621
<b>Ar 1 Awst 2016</b>	5,826	114,823	48,972	169,621
Gwarged am y flwyddyn	313	18,579	-	18,892
Incwm cynhwysfawr arall	-	18,400	-	18,400
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	1,197	(1,197)	-
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	-	-	-	-
<b>Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>	313	38,176	(1,197)	37,292
<b>Ar 31 Gorffennaf 2017</b>	6,139	152,999	47,775	206,913
<b>Y BRIFYSGOL</b>				
<b>Ar 1 Awst 2015</b>	5,674	67,084	64,507	137,265
Gwarged am y flwyddyn	152	51,178	-	51,330
Gwariant cynhwysfawr arall	-	(19,500)	-	(19,500)
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	15,535	(15,535)	-
Rhyddhau cronfeydd cyfalaf cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	-	-	-	-
<b>Ar 31 Gorffennaf 2016</b>	5,826	114,297	48,972	169,095
<b>Ar 1 Awst 2016</b>	5,826	114,297	48,972	169,095
Gwarged am y flwyddyn	313	18,597	-	18,910
Incwm cynhwysfawr arall	-	18,400	-	18,400
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	1,197	(1,197)	-
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	-	-	-	-
<b>Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>	313	38,194	(1,197)	37,310
<b>Ar 31 Gorffennaf 2017</b>	6,139	152,491	47,775	206,405

# MANTOLEN GYFUNOL AC AR GYFER Y SEFYDLIAD

Ar 31 Gorffennaf 2017

	Nodiadau	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
		31 Gorffennaf 2017	31 Gorffennaf 2017	31 Gorffennaf 2016	31 Gorffennaf 2016
		£000	£000	£000	£000
<b>ASEDAU ANGHYFREDOL</b>					
Asedau sefydlog diriaethol	11	362,472	361,436	354,231	353,329
Asedau Treftadaeth	11/12	925	925	925	925
Buddsoddiadau	14	1,351	1,976	1,114	1,726
Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau	15	3,076	3,076	3,330	3,330
		<b>367,824</b>	<b>367,413</b>	<b>359,600</b>	<b>359,310</b>
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>					
Stoc	16	180	62	199	67
Masnach ac arian arall i'w dderbyn	18	37,003	36,971	24,277	24,118
Buddsoddiadau	17	4,602	4,602	4,320	4,320
Arian Parod a Chyferwerth		71,556	69,601	69,250	67,853
		<b>113,341</b>	<b>111,236</b>	<b>98,046</b>	<b>96,358</b>
Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	19	(63,714)	(61,706)	(49,135)	(47,683)
		<b>49,627</b>	<b>49,530</b>	<b>48,911</b>	<b>48,675</b>
<b>ASEDAU / (RHWYMEDIGAETHAU) CYFREDOL NET</b>					
		<b>49,627</b>	<b>49,530</b>	<b>48,911</b>	<b>48,675</b>
<b>Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>417,451</b>	<b>416,943</b>	<b>408,511</b>	<b>407,985</b>
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	20	(133,456)	(133,456)	(137,708)	(137,708)
<b>DARPARIAETHAU</b>					
Darpariaeth pensiynau	21	(77,082)	(77,082)	(101,182)	(101,182)
		<b>206,913</b>	<b>206,405</b>	<b>169,621</b>	<b>169,095</b>
<b>CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG</b>					
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn	22	6,139	6,139	5,826	5,826
<b>CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG</b>					
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig		152,999	152,491	114,823	114,297
Cronfa ailbriso		47,775	47,775	48,972	48,972
		<b>206,913</b>	<b>206,405</b>	<b>169,621</b>	<b>169,095</b>

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

## DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017

	Nodiadau	31 Gorffennaf 2017 £000	31 Gorffennaf 2016 £000
<b>LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL</b>			
Gwarged am y flwyddyn		18,892	51,658
<b>Addasiadau ar gyfer eitemau ac eithrio arian parod</b>			
Dibrisiant	11	18,174	18,277
Elw ar fuddsoddiadau		(375)	849
Gostyngiad stoc		19	12
Cynnydd dylwedwyr		(12,726)	(4,806)
Cynnydd credydwyr		13,325	(56,141)
Gostyngiad darpariaethau		(5,700)	6,348
Cyfran o ddiffyg gweithredol cyd-fentrau		256	278
<b>ADDASIADAU AR GYFER GWEITHGAREDDAU ARIANNU NEU FUDDSODDI</b>			
Incwm o fuddsoddi		(257)	(380)
Llog i'w dalu		4,986	4,777
Incwm Gwaddolion		(20)	(20)
(Elw) / Colled ar werthu asedau sefydlog		(75)	671
Incwm grantiau cyfalaf		(6,605)	(9,926)
<b>Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b>29,894</b>	<b>11,597</b>
<b>LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI</b>			
Enillion o werthu asedau sefydlog		-	17,408
Incwm grantiau cyfalaf		6,605	9,926
Incwm o fuddsoddi		257	380
Taliadau i brynu asedau sefydlog		(24,047)	(26,708)
Buddsoddiadau asedau cyfredol newydd		-	79
Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd		145	828
<b>Mewnlif (all-lif) arian net o fuddsoddiadau</b>		<b>(17,330)</b>	<b>1,913</b>
<b>LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU ARIANNU</b>			
Llog a dalwyd		(3,979)	(4,030)
Elfen llog prydlesu cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth		(3,191)	(3,251)
Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd		20	20
Benthyciadau gwarantiedig newydd		-	10,000
